

## CYFLWYNIAD Y LLYWYDD

Eleni mae M.A.G.C yn paratoi i dathlu hanner can mlynedd oddiar ei sefydlu. Yn dilyn Deddf Addysg Butler yn 1944, a wnaeth addysg grefyddol yn rhan hanfodol o gwricwlwm pob ysgol yn y wlad, teimlodd grŵp o Gyfarwyddwyr Addysg goleuedig bod angen sefydlu corff i gefnogi athrawon yn y pwnc o fewn ysgolion. Yn ystod yr hanner can mlynedd a aeth heibio gyda chefnogaeth yr A.A.LI. yng Nghymru llwyddodd M.A.G.C. i gyflawni hynny gan gynhyrchu deunyddiau perthnasol o safon ar gyfer ysgolion. Bu llawer o newidiadau yn natur y pwnc dros y blynyddoedd wrth i'w orwelion ehangu tu hwnt i'r hyn a fwriadwyd yn 1944. Llwyddodd M.A.G.C. i gofleidio'r newidiadau hyn er mwyn ymgodymu â'r galwadau newydd arno. Fel cyn Gyfarwyddwr Addysg, rwy'n ymwybodol o'r ffaith bod yna wasgfa ariannol dybryd ar Awdurdodau Lleol, ond gobeithiaf y bydd modd iddynt ddal i gefnogi'r mudiad yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Ar ôl rhai blynyddoedd hesb mae'n galonogol i weld bod y niferoedd sy'n cymryd addysg grefyddol yn codi a chyda'r codiad hwnnw bydd y math o gefnogaeth a gynigir gan M.A.G.C. yn fwy perthnasol.

W. John Phillips

## ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Bydd MAGC erbyn y flwyddyn 2015 yn dathlu 50 mlynedd o gefnogaeth i ddysgu ac addysgu addysg grefyddol yn ein hysgolion cynradd ac uwchradd. Wrth edrych yn ôl dros hanner can mlynedd, mae'r Mudiad wedi gweld nifer fawr iawn o newidiadau yn hanes AG yn ein hysgolion. Ar y cychwyn cyntaf, roedd AG mwyn neu lai yn bwnc 'Sinderela' gyda'r teitl 'Diwinyddiaeth' neu 'Ysgrythur' ac roedd, mwy neu lai, yn gyfan gwbl yn seiliedig ar y Beibl. Gyda'r cynnydd yn hyfforddiant athrawon a chyflwyno cyrsiau Astudiaethau Crefyddol i lefel B.Add. gwelwyd cynnydd yn nifer athrawon wedi eu hyfforddi yn y pwnc ar lefel cynradd ac uwchradd. O ganlyniad, gwelwyd yr angen am adnoddau ar gyfer dysgu ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg yn y sector gynradd a'r uwchradd. Yn ogystal, i gefnogi'r adnoddau yma, trefnwyd cynadleddau AG yn yr ysgolion er mwyn rhoi gwybodaeth i ddisgyblion am ddatblygiadau pellach mewn AG. Daeth y rhain yn

boblogaidd iawn ac fe'u cynhaliwyd yn rheolaidd dros nifer o flynyddoedd, gan amlaf wedi eu darparu a'u cynnig gan Fudiad Addysg Gristnogol Cymru, fel y'i galwyd bryd hynny.

Dros y degawdau canlynol, estynnodd y Mudiad wahoddiad i athrawon oedd yn dysgu ar y pryd, i lunio themâu ar gyfer AG (yn Gymraeg a Saesneg) ar gyfer yr ystafell ddosbarth. Bryd hynny, ychydig iawn o ddeunydd AG ar gyfer y dosbarth oedd ar gael, drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad daeth ystod eang iawn o adnoddau ymarferol ar gael i ysgolion yn ogystal ag adnoddau gwerthfawr ar gyfer gwasanaethau boreol/addoli ar y cyd. Gyda sefydlu'r Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol ym Mangor gwelwyd cefnogaeth bellach i AG pan gynhyrchwyd y cylchgrawn 'Newyddion AG' sy'n parhau hyd heddiw.

Yn ddiweddarach, gwelwyd newid teitl 'Mudiad Addysg Gristnogol Cymru' i 'Mudiad Addysg Grefyddol Cymru', oedd yn adlewyrchu'r datblygiad o agwedd mwy cynhwysol tuag at astudiaethau o brif grefyddau'r byd. Gwnaed cryn ymdrech ar ran y Mudiad i estyn gwahoddiad i aelodau o wahanol ffydd i'w cynrychioli ar Gyngor y Mudiad, ond hyd yma, ychydig iawn o ymateb gafwyd gan y rhan fwyaf ohonynt. Mae newidiadau eraill ym myd addysg hefyd wedi cael effaith ar rôl MAGC ac mae'r dyfodol yn ymddangos yn ansicr iawn. Fel Cadeirydd, rwyf yn argyhoeddedig fod gan y Mudiad o hyd rhan bwysig yng ngwarchod dyfodol darpariaeth AG yn ein ysgolion. Mae rôl yr ymgynghorydd AG yn yr ysgolion bellach yn diflannu neu wedi diflannu yn llwyr erbyn hyn. Mae nifer y lleoedd ar gyfer hyfforddi athrawon AG yn Lloegr a Chymru wedi lleihau yn sylweddol. Rydym yn parhau i obeithio y daw cynrychiolwyr y grwpiau ffydd eraill i chwarae eu rhan yn ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae angen gwarchod lle Addysg Grefyddol yn ein hysgolion cynradd ac uwchradd. Mae gan y pwnc ac fe fydd ganddo yn y dyfodol, ran arbennig iawn yn natblygiad disgyblion yn cynnig sensitifrwydd dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion moesol, cymdeithasol a chrefyddol. Ar waethaf yr holl newidiadau addysgol amrywiol wneir gan y Llywodraeth, mae MAGC yn parhau i fod yn ymroddedig i wasanaethu achos AG yn ein hysgolion am flynyddoedd i ddod.

Ben Wigley

## ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD

Eleni, rydym wedi cael ei harwain yn hynod fedrus gan ein Cadeirydd Mr Ben Wigley, sydd hefyd yn cynrychioli'r Mudiad ar nifer o bwyllgorau cenedlaethol. Rydym yn ddyledus iawn hefyd i'n Llywydd, Mr John Phillips a'n Trysorydd Mr Rheinallt Thomas am eu gwaith diflino ar ran y Mudiad. Hoffwn hefyd, ddiolch yn bersonol am gefnogaeth ffyddlon aelodau o'r Cyngor, sydd wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd ar waethaf prysurdeb a gorchwylion eraill. Maent bob amser wedi cefnogi a hyrwyddo gwaith y Mudiad.

Fel yn y gorffennol, mae MAGC yn ddyledus ac yn ddiolchgar iawn i'r awdurdodau lleol hynny sydd wedi cyfrannu tuag at waith y Mudiad eleni eto. Mae rhai awdurdodau yn ffyddlon iawn .. yn cyfrannu bob blwyddyn... mae ein dyled yn fawr iddynt. Rydym yn ymwybodol iawn mai'r cyfraniadau yma sydd yn galluogi MAGC i wasanaethu'r ysgolion: rydym yn ymwybodol iawn hefyd o'r cyfyngiadau ariannol enbyd sydd wedi eu rhoi ar awdurdodau - mae cyllideb pob awdurdod wedi ei gwtogi. Oherwydd hyn, mae rhai awdurdodau oedd yn arfer cyfrannu yn gyson yn methu gwneud hynny eleni. Dymunwn ddiolch iddynt am eu cefnogaeth frwd drwy'r blynyddoedd ac yn fwy na dim, gobeithiwn, pan ddaw amserau gwell, yn ariannol, y byddent unwaith eto, yn cyfrannu tuag at waith MAGC.

Mae 50% o gyfraniad awdurdodau ar gael i'w wario un ai ar gyrsiau, digwyddiadau a dathliadau arbennig, neu ar adnoddau. Mewn cyfnod pan mae arian yn brin, mae'r gallu i wario 50% yn hynod werthfawr. Eleni, dewisodd ysgolion brynu adnoddau i gyfoethogi eu canolfannau a chefnogi athrawon... eto, y rhai oedd yn elwa, oedd athrawon a disgyblion !

Eleni eto, mae gan MAGC gynrychiolaeth gref ar bwyllgorau cenedlaethol. Mae gennym gynrychiolydd cadarn iawn ar Gyngor AG, sef Parch Eldon Phillips ... dyma lais cryf ar ran MAGC a materion Addysg Grefyddol yng Nghymru ar y Cyngor. Hoffwn ddatgan ein diolchgarwch iddo am fynychu cyfarfodydd y Cyngor AG ac am ei adroddiadau i ni wedi hynny. Mae gennym gynrychiolaeth

gref ar Gymdeithas CYSAGau Cymru ac ar NAPfRE hefyd, sef Ben Wigley - g r sydd yn uchel iawn ei barch a'i ddylanwad ym myd AG ac yn gyn Arolygydd Ei Mawrhydi. Yn ogystal, mae Dr Tania ap Siôn yn cynrychioli'r Mudiad ar gyngor CE. Drwy eu hadroddiadau rheolaidd a chynhwysfawr hwy, mae MAGC yn cadw cysylltiad â ac yn dod yn ymwybodol o weithgareddau a syniadau newydd ym myd AG. Mae ein dyled yn fawr iddynt.

Ym mis Tachwedd 2012, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Mudiad yng Ngholeg Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin drwy wahoddiad caredig Mr Vaughan Salisbury. Gwahoddwyd aelodau'r Cyngor yn y prynhawn i wrando ar ddarlith i'r myfyrwyr gan Dr Peter Vardy. Dyma y rhan olaf o gynhadledd lwyddiannus iawn i fyfyrwyr chweched dosbarth (UG) ysgolion yr ardal 'Moeseg a Chrefydd' gynhaliwyd yn y coleg. Braff oedd gweld y berthynas hwylus rhwng Dr Vardy â'r myfyrwyr a chlywed eu cwestiynau a'u sylwadau treiddgar oedd yn hollol realistig a chyfoes.

Parheir i gyhoeddi a dosbarthu 'Syniadau Addysg Grefyddol' yn Gymraeg a Saesneg yn rhad ac am ddim i ysgolion yn yr awdurdodau hynny sydd yn cyfrannu i MAGC. Eleni, paratowyd y tri rhifyn gan rai o athrawon cynradd Gwynedd dan arweiniad Miss Bethan James, Ymgynghorydd Dyniaethau. Dymunwn ddiolch iddynt am dri rhifyn arbennig iawn. Mrs Sam Bray, Ysgol Gatholig St Joseph a Chanolfan y chweched dosbarth Port Talbot fydd yn paratoi'r tri rhifyn eleni. Edrychwn ymlaen at dderbyn y rhain.

Unwaith eto, hoffwn ar fy rhan fy hun, ddiolch i aelodau MAGC am eu cymorth a'u cefnogaeth ddiflino ar hyd y flwyddyn - dymunaf hefyd ddiolch am gefnogaeth athrawon ac ymgynghorwyr - am ei hamynedd, ei hagwedd gefnogol a phositif ynghyd â'u hatebion cyflym iawn i lythrau, ac e-bostiau. Yn fwy na dim, hoffwn ddiolch i'm cyfeillion ar y Cyngor am eu cefnogaeth ddiffuant... ac am eu hamynedd! Diolch!

Sali Roberts

## ADNODDAU MAGC

(Cyfnodau Allweddol 1-3)

'Ymchwilio i Thema: Dathliadau'

'Ymchwilio i Thema: Codau Byw'

'Ymchwilio i Gredodau ar Waith yn y Byd'

'Ymchwilio i Gwestiynau Dyrys'

Yr uchod £7.90 yr un ; isod £7.50 yr un. Gostyngiadau i Aelodau

'Nadolig'

'Iesu'

'Mannau Arbennig'

'Pobl Arbennig'

'Adegau Arbennig'

(Cyfnodau Allweddol 4-5)

'Barn yr Eglwysi ar Faterion Moesol ' £10.50

'What the Churches say' £10.50

'What the Welsh Churches say' £5.

Ôl gopiau o Syniadau AG £1 yr un (+ p a p)

Y Beibl yn yr Ystafell Ddosbarth

Bywyd Newydd

Teithiau

Storiau Tylwyth Teg

Nadolig a'r Creu

Dysgu Iddewiaeth Cyfnod Allweddol 1

Defnyddio lle o Addoliad fel Adnodd

Arteffactau Crefyddol yn y Dosbarth

Y Byd Naturiol

Ffrindiau

Dyddiau Difyr

Pererindod(2003)

Bywyd Newydd

Llyfrau Arbennig

Pererindod(2004)

Dathlu Dewi Sant

Gweddi

Addoliad

Bedydd/Defodau Plentyndod

Priodas

Straeon Arbennig

Dioddefaint

Gwardigaeth

AG a'r byd gwaith

Arwyddion a Symbolau

Dechreuadau

Dweud Straeon

Mannau Addoli

Rhagfarn a Gwahiaethu

Cyfeillgarwch

Ysbrydolrwydd

Cwestiynu

Mannau Sanctaidd

Y Gemau Olympaidd - Symbolau

Y Gemau Olympaidd - Paratoi

Y Gemau Olympaidd

Sgwn i pam ei fod fel hyn?

Sgwn i pam eu bod yn meddwl fel hyn?

Sgwn i os oes ffydd ar waith yn

eich ardal chi?

# Adroddiad Archwiliwr Annibynnol i Ymddiriedolwyr Mudiad Addysg Grefyddol Cymru

Adroddaf ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2013, a osodir ar y ddwy dudalen sy'n dilyn.

Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr ac archwiliwr

Fel ymddiriedolwyr yr elusen rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon; rydych o'r farn nad yw'n angenrheidiol cael archwiliad ariannol yn unol ag adran 43(2) Deddf Elusennau 1993 (y Ddeddf). Fy nghyfrifoldeb i yw datgan; ar sail y drefniadaeth a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyffredinol a roddir gan y Comisiynwyr Elusennol dan adran 43(7)(b) y Ddeddf, a oes materion penodol wedi hawlio fy sylw.

Sail adroddiad yr archwiliwr annibynnol

Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r cyfarwyddyd Cyffredinol a roddir gan y Comisiynwyr Elusennol. Mae archwiliad yn cynnwys arolygu cofnodion y cyfrifon a gedwir gan yr elusen a chymharu'r cyfrifon a gyflwynwyd â'r cofnodion hynny. Mae hefyd yn golygu ystyried unrhyw eitemau neu ddadleniadau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio esboniadau gennych chi fel ymddiriedolwyr ynglŷn â materion o'r fath. Nid yw'r drefniadaeth a gyflawnir yn darparu'r holl dystiolaeth a fyddai'n angenrheidiol mewn archwiliad ariannol, ac o ganlyniad nid wyf yn mynegi barn o safbwynt archwiliad ariannol ar y sefyllfa a roddir yn y cyfrifon.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Mewn perthynas â'm harchwiliad, nid oes unrhyw fater wedi hawlio fy sylw:

- (1) sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu na chafodd y gofynion canlynol eu bodloni i unrhyw raddau perthnasol, sef
  - cadw cofnodion y cyfrifon yn unol ag adran 41 y Ddeddf; a
  - paratoi cyfrifon sy'n cytuno â'r cofnodion cyfrifo a chydymffurfio â gofynion cyfrifeg y Ddeddf; neu
- (2) y dylid, yn fy marn i, dynnu sylw ato er mwyn sicrhau dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.

Enw: Gareth W Jones

Cymhwyster proffesiynol neu gorff perthnasol: Is Reolwr Banc (wedi ymddeol)

Cyfeiriad: Llannerch, Parc T r, Llanfair Pwllgwyngyll, LL61 5NJ.

Dyddiad: Mai 1af 2013

Mudiad Addysg Grefyddol Cymru  
Datganiad o Dderbyniadau a Gwariant  
Ebrill 1af 2012 i Mawrth 31ain 2013

2011-2012		2012-13
£	GWARIANT	£
11,325.00	Cyflog a Threuliau - Ysg.	11,400.00
377.48	Swyddfa	201.42
786.60	Treuliau Aelodau'r Cyngor	1,196.85
———	HMS/AALI	1,800.00
936.95	Syniadau AG	983.79
145.00	Arall	3,250.00
4,162.81	Adnoddau	158.73
17,733.91	CYFANSWM GWARIANT	18,990.79

DERBYNIADAU		
15,102.91	Cyfraniadau'r Awdurdodau	8,242.75
867.31	Llogau Banc	874.88
997.91	Adnoddau	189.40
16,968.13	CYFANSWM DERBYNIADAU	9,307.03
(765.78)	Gwir incwm(colled) am y flwyddyn	(9,683.76)

MANTOL Y BANC		
14,449.13	Ar ddechrau'r flwyddyn(Ebrill 1af)	13,683.35
(765.78)	Incwm(colled) am y flwyddyn	(9,683.76)
———	Trosglwyddo Affirmative Deposit Fund	6,652.00
13,683.35		10,651.59

Mudiad Addysg Grefyddol Cymru  
Datganiad o'r Asedau a Dyledion ar 31ain Mawrth, 2013

Asedau Ariannol:

Cyfrif Cyffredinol- Cyfrif Cymunedol HSBC	10,651.59
Cyfrif The Affirmative Deposit Fund (31//03/13)	30,080.19
[Ilogau 2012-13 o £ 424.89 yn gynwysedig]	
CAF Income Bond (gwerth ar 31/01/13)	34,363.12
	£75,094.90

Asedau eraill: Dim

Dyledion: Dim

Adnoddau mewn stoc 31/3/13

Barn yr Eglwysi ar faterion.... 3 @ £10.50	= £ 31.50
What the Welsh Churches say on ..13@ £5.00	= £ 65.00
More Than Just RE. ....5@ £5.00	= £25.00
Mannau Arbennig...24@ £7..50	= £ 180.00
Iesu..128 @ £7.50	= £960.00
Nadolig...76 @ £7.50	= £570.00
Adegau Arbennig...125 @ £7.50	= £937.50
Crefydd Ôl 9/11... 6@ £1	= £6.00
Pobl Arbennig...117 @ £7.50	= £ 877.50
Ymchwilio i Greddau.....95 @ £7.90	= £ 750.50
Ymchwilio i Gwestiynau Dyrys....69@ £7.90	= £ 545.10
Ymchwilio i Ddathliadau.....123 @ £7.90	= £ 971.70
Ymchwilio i Codau Byw....150 @ £7.90	= £ 1216.60
Amazing Lives...168 @ £9.99	= £ 1185.00

Llai dibrisiad o 100% = £0

GWERTH Y STOC = £0

Polisi di-brisiad MAGC (mabwysiadwyd 14/11/2003)

Diwedd blwyddyn 1 - dibrisiad o 60% o'r pris gwerthu

Diwedd blwyddyn 2 - dibrisiad o 80% o'r pris gwerthu

Diwedd blwyddyn 3 - dibrisiad o 100% o'r pris gwerthu

Polisi wrth gefn MAGC (mabwysiadwyd 14/11/2003)

Y dylai MAGC bob amser fod gyda lleiafswm o £35,000 wrth gefn yn eu coffrau, fel modd i ddirwyn y Mudiad i ben dros gyfnod yn hytrach nag yn sydyn.